CYNGOR BRO TRAWSGOED COMMUNITY COUNCIL

Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd yn Neuadd Lisburne, Llanafan ar Nos Lun 6ed Ionawr, 2020 am 7.30 y.h.

Minutes of Trawsgoed Community Council held at Neuadd Lisburne, Llanafan on Monday 6th January 2020 at 7.30 p.m.

Presennol/Present:

Cyng./Cllr. L. Owen (Cadeirydd/Chairman)
Cyng./Cllr. P. Bonner, Cyng./Cllr. A. Davies, Cyng./Cllr. A. Evans, Cyng./Cllr. H.M. Evans, Cyng./Cllr. J. George, Cyng./Cllr. E. Lewis,
Cynghorydd Sir/County Councillor M. Davies

Ymddiheuriadau/Apologies: Cyng./Cllr. P. Davies, Cyng./Cllr. Sh. Edwards, Cyng./Cllr. C. Lloyd-Morgan

Cydymdeimlwyd gan'r Cyng. Sharon Edwards a'r Teulu ar ei phrofedigaeth o golli ei Thad yn ddiweddar.

Condolences were expressed to Cllr. Sharon Edwards and Family on lossing her Father recently.

1. **Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf** Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf, 2 Rhagfyr, 2019. Cynigiwyd cywirdeb gan y Cyng. J. George ac eiliwyd gan Cyng. A. Evans.

1. **Minutes of the Last Meeting** The minutes of the last meeting, 2nd December, 2019, were confirmed and accepted which was propsed by Cllr J. George and seconded by Cllr. A. Evans.

2. **Asesiad Risg ac Asedau** Nid oedd materion yn codi.

2. Risk and Asset Assessment There were no matters arising.

3. Materion yn codi o'r Cofnodion

(i) Ffyrdd a draeniau angen sylw o fewn yr ardal.

(ii) Coeden mewn perygl o gwympo ym Mhentref Llanafan: Derbyniwyd ymateb wrth Gyngor Sir Ceredigion bod y sefyllfa mewn llaw.

(iii) Ffordd heibio Dolgwybedin: mae cyflwr y ffordd yn parhau i beri gofid ac angen sylw.

(iv) Materion Ffyrdd yn Cnwch Coch: y Clerc i gadw mewn cysylltiad gyda swyddogion y Cyngor Sir i sicrhau'r cyflawnir y gwaith.

3. Matters arising from the Minutes

(i) Roads and drains requiring attention within the area.

(ii) Tree at risk of falling in Llanafan Village: Ceredigion County Council responded noting that the matter is in hand.

(iii) Road near Dolgwybedin: the condition of the road continues to cause concern and require attention.

(iv) Road Issues in Cnwch Coch: the Clerk to liaise with County Council officers to ensure the works are carried out.

(v) Dwr yn rhedeg o'r ffordd i dir preifat yn Cnwch Coch. Y Cyngor Sir yn ymwybodol ac wedi siarad gydag unigolion perthnasol a effeithir a gobeithir ymdrin â'r gwaith yn ystod mis Ionawr 2020.

(vi) Ar ben lon Cwmnewidion mae arwynebedd y ffordd wedi codi – sefyllfa'n parhau angen sylw.

(vii) Coed angen torri nol ger Cwmseiri sy'n amharu ar weledeed wrth deithio.

(v) Water running from the road onto private land. The County Council aware and discussd matter with those affected, with the work intended to be carried out during January 2020.

(vi) Near to Cwmnewidion junction the road surface has risen, the matter still requiring attention.

(vii) Trees need to be felled near Cwmseiri which impair visibility when traveling.

4. Materion Cyllidol

(i) Llythyr wrth Glwb Pêl Droed Llanilar am nawdd ariannol gan y Cyngor Bro. Cytunwyd I gyfrannau £100 tuag at y Clwb. Cynigiwyd gan Cyng. A. Evans ac eiliwyd gan Cyng. H. Evans. Datganodd Cyng. P. Bonner, Cyng. A. Davies a'r Clerc ddiddordeb wrth drafod.

(ii) Yn ychwanegol derbyniwyd cais gan yr Urdd tuag at Eisteddfod yr Urdd 2020. Cytunwyd i beidio â chyfrannu gan gadw rhoddion at sefydliadau lleol.

(iii) Cyflwynodd y Clerc fantolen ariannol gan nodi bod £3,426.83 yn y cyfrif cyfredol £4,002.92 yn y cyfrif cadw a £27.68 yng nghyfrif Maes y Felin, ble mae £1,064.75 ohono'n wariant wedi clustnodi o braesept y flwyddyn gyfredol

4. Financial Matters

(i) Correspondnce from Llanilar Football Club for a donation from the Community Council. It was resolved to donate £100 which was proposed by Cllr. A. Evans and seconded by Cllr. H. Evans. Cllr. P. Bonner, Cllr. A. Davies and the Clerk declared an interest in the item.

(ii) In addition a request was received by the Urdd towards the Urdd Eisteddfod 2020. It was decided not to donate but to keep donations to local organisations.

(iii) The Clerk presented a financial balance sheet noting that there was £3,426.83 in the current account £4,002.92 in the deposit account and £27.68 in the Maes y Felin account of which £1,064.75 is committed expenditure from the current year's precept

5. Gohebiaeth

(i) Gwybodaeth gan Adran Llywodraethwyr Cyngor Sir Ceredigion yn nodi bod cyfnod Cyng. John George fel cynrychiolydd y Cyngor Bro ar Gorff LLywodraethol Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn yn dod i ben ddiwedd mis Chwefror. Datganodd Cyng. George nad oedd yn dymuno cael ei ail-ethol a diolchwyd iddo am ei waith diflino ar y Corff Llywodraethol am nifer fawr o flynyddoedd.

5. Correspondence

(i) Information from Governor Section, Ceredigion County Council noting that Cllr. John George's period as the Community Council's representative on the Governing Body of Llanfihangel-y-Creuddyn Primary School comes to an end at the end of February. Cllr. George noted that he did not wish to be renominated and appreciation is minuted to Cllr. George for his tireless work on the Governing Body for a number of years.

Cytunwyd i enwebi Cyng. P. Davies fel cynrychiolydd Cyngor Bro Trawsgoed ar y Corff Llywodraethol.

(ii) Llythyr o ddiolch gan Gangen Aberystwyth y Lleng Brydeinig gan y rhodd ariannol.

It was resolved to nominate Cllr. Paul Davies as Trawsgoed Community Council representative on the Governing Body.

(ii) Letter of appreciation from the Aberystwyth Branch, British Legion for the recent donation.

6. Unrhyw Fater Arall

(i) Arwynebedd y ffordd ger Bont Tanllan, Llanfihangel-y-Creuddyn yn wael. Draeniau angen gwaghau ar hyd y ffordd hefyd.

(ii) Dangoswyd pryder am yr anghysondeb yng ngwasanaeth gwastraff/ail-gylchu. Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ddatgan anfoddhad yn y Gwasanaeth.

(iii) Cyfeiriwyd at bryder a dderbyniwyd gan aelod o'r cyhoedd bod hyrddod yn pori yn hen fynwent yr Eglwys yn Llanfihangel-y-Creuddyn gan achosi niwed posibl i'r coed ar y safle. Nid yw'r Fynwent yn gyfrifoldeb i'r Cyngor Bro ond cytunwyd i dynnu'r mater i sylw Swyddogion yr Eglwys.

(iv) Oherwydd maint rhai o'r cerbydau sy'n teithio ar ddarn o'r ffordd, Lon Las, rhwng Abermagwr tuag at Cnwch Coch gwelir bod angen teithio ar y llen gwair wrth ymyl y ffordd gan achosi tyllau dwfn rhwng ochr y ffordd a' gwair Y Clerc i dynnu sylw'r Cyngor Sir.

(v) Yr un sefyllfa wedi digwydd ar ochr y ffordd ar y B4340 ger Coed Abermagwr, cyn dod at gatiau Plas y Trawsgoed ac wedi gael twll dwfn rhwng y darn gwair ag ochr y ffordd.

6. **Any Other Business**

(i) Poor road surface area near Tanllan Bridge, Llanfihangel-y-Creuddyn. Water Drains need to be emptied as well.

(ii) Concern was expressed about the inconsistency in the waste/recycling service. The Clerk to contact the County Council to express dissatisfaction with the situation.

(iii) Reference was made to a concern received from a member of the public that rams were grazing in the old Churchyard at Llanfihangel-y-Creuddyn, potentially causing damage to the trees on the site. The Cemetery is not the responsibility of the Community Council but it was agreed to bring the matter to the attention of Church Officers.

(iv) Due to the size of some of the vehicles traveling on a section of road, Lon Las, between Abermagwr towards Cnwch Coch vehicles have been riding on the grass verge causing deep ridges between the roadside and the grass The Clerk to draw the attention of the County Council.

(v) The same situation has arisen on the roadside on the B4340 near Abermagwr Wood, before coming to the gates of Trawsgoed Hall and having a deep hole between the works and the roadside.

DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Iau. Cynhelir y cyfarfod nesaf y Cyngor Bro ar Nos Lun 17 Chwefror 2020 am **7.30 y.h**. yn Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn.

DATE OF NEXT MEETING

The next meeting to be held on Monday 17th February, 2020 **7.30 p.m**. at Llanfihangel-y-Creuddyn School